Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Parcyrhun
# Ysgol Gynradd Parcyrhun
# Villiers Road
# Rhydaman
# Sir Gaerfyrddin
# SA18 3HB

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Parcyrhun yn cyfarfod mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Parcyrhun ar gyrion tref Rhydaman, Sir Gaerfyrddin.  Mae'r lleoliad ar agor am bum diwrnod yr wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 16 o blant fesul sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 48 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr.  Mae 15 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.  Daw y rhan fwyaf o blant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith.  Mae ychydig iawn o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.  Mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pum aelod parhaol o staff.  Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae un aelod ychwanegol o staff sy'n fyfyrwraig o dan hyfforddiant.  Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Medi 2013.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2015 a chan Estyn yn Ebrill 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod briodol o fedrau rhifedd
- Mae medrau creadigol a chorfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol
- Mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda
- Mae'r plant yn ymddwyn yn dda
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan weithredol yn eu gweithgareddau ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol
- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau diddorol sy'n sicrhau ymglymiad a mwynhad y plant yn eu dysgu
- Mae'r ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r holl blant

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- Mae'r defnydd adeiladol o fedrau'r ymarferwyr yn arwain at waith tîm effeithiol
- Mae dealltwriaeth sicr gan yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r prif feysydd i'w gwella
- Mae'r cynllun datblygu yn gosod blaenoriaethau priodol yn cynnwys datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ymhellach
- Mae tystiolaeth o welliannau yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus
- Mae partneriaeth agos gyda'r ysgol gynradd, y rhieni a'r gymuned yn cynorthwyo dysgu a lles y plant

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llafar Cymraeg y plant

A2 Mireinio'r cynllunio i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu medrau sylfaenol y plant yn gyson

A3 Atgyfnerthu geirfa ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn rheolaidd yn ystod gweithgareddau

A4 Datblygu ymhellach y defnydd o ddeilliannau asesu wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau'r plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad yn amrywio'n fawr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn. Maent yn wrandawyr da ac yn dangos diddordeb a brwdfrydedd wrth wrando ar storïau. Maent yn adnabod rhai o'r cymeriadau yn y storïau. Mae'r mwyafrif o blant yn dangos dealltwriaeth dda o gyfarwyddiadau sylfaenol ac o eiriau cyfarwydd yn y Gymraeg ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Maent yn gwybod ystod o ganeuon a rhigymau ar y cof ac yn eu canu gyda mwynhad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn dal llyfrau'n gywir. Mae'r mwyafrif yn adnabod eu cardiau enwau adeg hunan-gofrestru. Mae llawer o blant yn datblygu medrau marcio priodol ac yn eu defnyddio'n addas mewn cyd-destunau gwahanol. Mae ychydig o blant yn tan ysgrifennu geiriau yn briodol ac yn eu gosod ar yr arddangosfeydd yn yr ystafell.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd priodol o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Gall y rhan fwyaf o blant gyfrif o'u cof hyd at o leiaf 10. Mae eu gallu i adnabod gwerth rhifau syml ac i gysylltu symbol a sain yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio gem bysgota, er enghraifft, yn effeithiol i ddal ac enwi pysgod sydd wedi'u rhifo. Mae'r mwyafrif o blant yn adnabod siapiau dau-ddimensiwn sylfaenol yn gywir a gallant gyfeirio at siapiau yn yr amgylchfyd allanol. Mae'r mwyafrif yn deall ystyr termau mathemategol, megis mawr a bach, wrth gymharu maint gwahanol wrthrychau. Maent yn deall bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop ffrwythau neu chwarae yn y caffi hufen ia.

Mae'r mwyafrif o blant yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i ymgymryd â thasgau megis rheoli teganau, symud gwrthrychau ar y sgrin a chreu lluniau lliwgar. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o gyfryngau yn effeithiol i beintio, argraffu, modelu a gwneud collage. Maent yn dewis defnyddiau a lliwiau addas ac yn arbrofi gyda hyder cynyddol. Mae llawer o blant yn defnyddio offer torri, peintio a gludo gyda rheolaeth dda.

Mae'r mwyafrif o blant yn gwneud defnydd priodol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau megis cymryd rhan mewn helfa drysor yn yr ardal allanol ac arbrofi i ddarganfod pa wrthrychau sy'n arnofio neu yn suddo yn y badell ddŵr.

**Lles: Da**

Mae'r plant i gyd yn ymgartrefu'n dda ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn ffurfio perthynas dda gyda phlant eraill a'r ymarferwyr. Maent yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymagweddau da tuag at ddysgu ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r profiadau dysgu. Maent yn gweithio'n ddiwyd ar dasg am gyfnod

priodol o amser gan fwynhau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd eu tro ac maent yn barod i rannu offer a theganau. Maent yn ymddwyn yn dda.

Mae gan y mwyafrif o blant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Mae'r ymweliadau â siop bwydydd iach i brynu ffrwythau a llysiau, a gweithgareddau corfforol dyddiol yn atgyfnerthu hyn. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd ac yn arbennig cyn bwyta byr brydau.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau megis ymweld â siopau lleol ac ymuno mewn gweithgareddau gyda'r ysgol gynradd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol a phwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae cynllunio'r lleoliad yn fanwl a threfnus ac yn darparu arweiniad clir i'r ymarferwyr. Mae'r cynllunio hirdymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae'r cynllunio tymor byr yn manylu'n briodol ar agweddau megis yr amcanion dysgu ac yn rhestru'r gweithgareddau. Mae gweithgareddau dan arweiniad oedolion wedi'u cynllunio'n fanwl i gwrdd ag anghenion plant o bob gallu. Weithiau, fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio yn rhoi digon o sylw i ddatblygu medrau sylfaenol y plant yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau ehangach y plant. Yn ystod gweithgareddau grŵp, er enghraifft, mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant wrando ar storïau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau. Mae'r arddangosfeydd o gwmpas yr ystafell yn cefnogi'r plant i arbrofi gyda rhifau ac i gyfrif. Er enghraifft, caiff y plant eu hannog i gyfrif hyd at o leiaf pump drwy neidio ar yr 'ysgol rif' ar lawr y dosbarth. Mae gweithgareddau ymarferol yn yr ardal allanol yn llwyddo i ymestyn eu dealltwriaeth o siâp a rhif, ac o dermau mathemategol, megis gwag/llawn, trwm/ysgafn drwy brofiadau chwarae gyda thywod a dŵr.

Mae profiadau pwrpasol, yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, hanes Y Twrch Trwyth a Dydd Santes Dwynwen, yn datblygu ymwybyddiaeth y plant am draddodiadau a dathliadau Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r defnydd adeiladol o ymweliadau ag ystod o leoedd gwahanol, megis siopau a fferm anifeiliaid, yn hybu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Mae cyfraniadau ymwelwyr, megis deintydd, dyn tan a nyrs, yn helpu datblygu ymwybyddiaeth y plant o rôl rhai pobl yn y gymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o athroniaeth a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cefnogi'r plant yn effeithiol ac yn cymryd diddordeb mawr yn eu datblygiad a'u cynnydd. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn hyderus i ymwneud â'r ystod o weithgareddau yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o ystod o strategaethau ac adnoddau pwrpasol i gefnogi dysgu'r plant. Maent yn llwyddo i gynnal cydbwysedd da rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolion a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis. Mae'r rhaglen o weithgareddau yn symud ar gyflymder da. Mae defnydd effeithiol o'r adnoddau dan do ac awyr agored i ddarparu cyfleoedd cyson i'r plant ddysgu trwy chwarae a bod yn weithredol yn eu dysgu.

Mae'r gweithgareddau dan arweiniad yr ymarferwyr yn cael eu paratoi'n drylwyr gydag amcanion clir. Mae'r ymarferwyr yn siarad â'r plant yn gyson, gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw geirfa ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn cael eu hatgyfnerthu yn ddigon rheolaidd yn ystod gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn defnyddio gweithdrefnau cynhwysfawr i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi yn ofalus, yn arbennig yn ystod gweithgareddau dan arweiniad oedolyn, ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn glir. Mae'r cofnodion trylwyr ar ddatblygiad y plant ar draws y meysydd dysgu yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r defnydd o wybodaeth asesu i hyrwyddo'r dysgu yn datblygu'n briodol mewn agweddau ar y gwaith megis adnabod targedau unigol i'r plant.

Caiff rhieni eu hysbysu'n effeithiol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol, nosweithiau agored ac adroddiadau ysgrifenedig. Mae'r casgliad o samplau o waith y plant yn gofnod defnyddiol o'u datblygiad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch deuluol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at les y plant. Mae cyfleoedd addas i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Mae bod yn rhan o Gynllun Gwên, er enghraifft, yn hybu arferion da o ran gofal dannedd.

Sefydlwyd trefniadau priodol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol, megis gwasanaethau cefnogi plant, yn sicrhau cyngor a chefnogaeth addas i'r ymarferwyr.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd fel caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu hyrwyddo'n adeiladol drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o'r angen i helpu pobl eraill trwy gasglu arian at achosion da.

Mae cyfleoedd cynhyrchiol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Divali. Mae'r cyfle i ymweld â bwyty Tsieineaidd a mwynhau pryd o fwyd yn cyfrannu ymhellach at ddysgu'r plant.

Mae'r cyfleoedd i blannu a thyfu planhigion ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw yn briodol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau. Mae pwyslais addas ar ddathlu amrywiaeth. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr profiadol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, mae cyflenwad digonol o adnoddau ar draws y meysydd dysgu. Maent o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol yn effeithiol.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o safon ddigonol. Er bod lle yn brin, mae'r ardaloedd gweithgareddau sydd wedi'u trefnu o amgylch yr ystafell ddosbarth yn ddeniadol ac yn cynnwys offer priodol. Mae defnydd effeithiol o ardal allanol yr ysgol gynradd, sydd yn cynnwys gardd, i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymchwilio a chwarae. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal fechan tu allan yr ystafell ddosbarth yn briodol i gynnal gweithgareddau ymarferol. Mae'r adeilad a'r safle yn lan a diogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae strwythur clir i'r sesiynau dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles plant. Mae polisïau addas yn cael eu gweithredu'n briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'r lleoliad. Mae'r aelodau yn cyfarfod yn dymhorol ac yn rhoi sylw addas i ofynion cyfredol y lleoliad. Mae'r cofnodion manwl yn sail i gynllunio pellach. Mae prosesau priodol mewn lle ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu bwyta'n iach a hyrwyddo medrau Cymraeg y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella. Mae hyn yn seiliedig ar arsylwadau o'r ddarpariaeth, sgyrsiau gyda'r staff a monitro proffiliau cynnydd y plant. Mae cyfarfodydd staff llawn yn cael eu cynnal ar gyfer cynllunio ac arfarnu'r ddarpariaeth. Yn ychwanegol, mae sesiynau trafod gydag ymarferwyr unigol i ddarparu cymorth ac arweiniad pellach. Mae'r strwythur hwn yn llwyddo i hyrwyddo gwelliannau mewn agweddau ar y gwaith. Mae'r cynllunio manwl ar gyfer y gweithgareddau dan arweiniad ymarferwyr, yn cynnwys y ffocws ar asesu parhaus, yn enghraifft o hyn.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod nifer o feysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae'n rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ymhellach. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu'n briodol.

Mae agweddau ar y ddarpariaeth yn cael eu monitro'n effeithiol gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno a gweithredir strategaethau addas sydd yn gwella'r ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn agored i ffyrdd newydd o weithio. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog datblygu Mudiad Meithrin a swyddog asiantaeth Dechrau'n Deg. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth deg i farn rhieni drwy drafodaethau dyddiol a dadansoddi'r holiaduron blynyddol, sy'n gefnogol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth gadarn gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau gyda sampl o rieni yn ystod yr arolygiad. Nodwyd eu bod yn fodlon ar y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud a bod yr ymarferwyr yn groesawgar ac yn barod iawn i drafod datblygiad eu plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, llyfrynnau a chylchlythyron.

Mae'r cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd yn paratoi'r plant yn effeithiol ar gyfer trosglwyddo i'r dosbarth meithrin. Mae'r ymarferwyr yn elwa o'r cyswllt agos gyda'r pennaeth ac o ddefnydd o adnoddau a chyfleusterau'r ysgol.

Mae cydweithio pwrpasol gydag athrawes gyswllt yr Awdurdod Addysg a swyddog Mudiad Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad drwy'r cyngor a'r arweiniad adeiladol a ddarperir. Mae partneriaeth effeithiol gyda swyddog Dechrau'n Deg yn cyfrannu at sicrhau cefnogaeth dda i'r plant a'u teuluoedd.

Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn dylanwadu'n effeithiol ar ddysgu'r plant. Mae'r plant yn ymweld â lleoedd gwahanol yn y gymuned yn rheolaidd. Mae aelodau o'r gymuned yn eu tro yn cynnig cefnogaeth dda i'r lleoliad, yn cynnwys cefnogi gweithgareddau codi arian.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae defnydd cynhyrchiol o amser a medrau'r ymarferwyr.  At ei gilydd, mae adnoddau dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr wedi mynychu nifer o gyrsiau hyfforddi perthnasol dan arweiniad yr Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.  Gwnânt ddefnydd  priodol o'r hyfforddiant i hyrwyddo medrau Cymraeg y plant, er enghraifft, a darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae cefnogaeth effeithiol i'r ymarferwr sydd am ennill cymwysterau pellach ym maes addysg a gofal plant.

Mae gan y trysorydd ddealltwriaeth gadarn o'r gyllideb ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad.  Mae'n darparu cyngor ac arweiniad adeiladol i'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli.  Mae defnydd effeithiol o ddigwyddiadau codi arian i ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol –

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |